

# DOLEN Y TAB – 25

## 9–10 Hydref 2020

### \*\*OEDFA BORE SUL 11 HYDREF\*\*

Oedfa Ddiolchgarwch yng ngofal Huw, Beth a Wendy.

### OEDFAON RHITHIOL GWEDDILL MIS HYDREF

#### 18 Hydref

Oedfa Deuluol yng nghwmni Lyn a Mike West a Geraint Rees.

#### 25 Hydref

Y Parchg. Gethin Rhys.

### Cofiwch hefyd y Sul yma am . . .

#### 10.30 Oedfa Ddigidol yr Undeb


Y Parchg. Dewi Myrddin Hughes, Clydach, Abertawe. (Ar gael ar wefan yr Undeb [annibynwyr.org](http://annibynwyr.org) a *You Tube*).

12.00 Oedfa Radio Cymru yng ngofal Morris Hugh Morris, Rhuthun.

12.30 Radio Cymru *Bwrw Golwg* gyda John Roberts.

E-fwletin Cristnogaeth21 newydd i'w weld bob bore Sul [www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru).

Mae dydd Gwener 16 Hydref yn Ddiwrnod Bwyd y Byd. Yr ydym fel Cristnogion yn credu mewn cyfiawnder byd-eang ac mae bwyd, a'r hawl i fwyd, yn rhan greiddiol o'r cyfiawnder hwnnw. Tua'r adeg hon bob blwyddyn hefyd fe fyddwn ni'n dathlu Diolchgarwch, ac mae gennym ni lawer i fod yn ddiolchgar yn ei gylch. Eleni, i gyd-fynd â'r diwrnod, bydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn rhannu cerddi, emynau, adnodau, darlenniadau neu luniau sy'n cyffwrdd â phynciau diolchgarwch, rhannu a chyfiawnder byd-eang. Anfonwch eich cyfraniadau am ddiolchgarwch, am rannu neu am gyfiawnder byd-eang, atom ar [undeb@annibynwyr.cymru](mailto:undeb@annibynwyr.cymru) cyn 16 Hydref, neu rhannwch naill ai ar dudalen Facebook Undeb yr Annibynwyr Cymraeg neu dros y cyfrif Twitter [@AnnibynwyrCymru](https://twitter.com/AnnibynwyrCymru) ar y diwrnod.



# ELUSENNAU 2020

Y tro hwn rydym am dynnu sylw at y drydedd o'r pedair elusen fydd yn rhannu'r swm a godir trwy gasgliad yr amlenni brown yn 2020, sef:

### CWTCH

Mae Cwtch, y prosiect cyntaf o'i fath yng Nghymru, yn cydweithio gydag ymwelwyr iechyd a gweithwyr cymdeithasol er mwyn diwallu anghenion mamau anghenus drwy gyflenwi dillad, offer a nwyddau hylendid ar gyfer babanod hyd at ddwy oed. Rydym wedi bod yn casglu nwyddau ar gyfer y prosiect yn y gorffennol.

Bydd y casgliad ariannol yn dilyn yr un drefn â chasgliadau eraill eleni, sef:

Anfon siec yn daladwy i Capel y Tabernacl Cyf, gan nodi 'Elusennau 2020', at:

Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU

neu trwy drosglwyddiad banc:

Cod didoli 30-96-72

Rhif cyfrif 03607499

gan gynnwys eich enw a nodi 'Elusennau 2020'.

**DS** Y tair elusen arall fydd yn rhannu'r casgliad yw *Gofalwyr Ifanc RhCT*, *Cymorth i Ferched Cymru ac Ysgol Tŷ Coch*.

## Dweud eich dweud...

Diolch i'r 56 ohonoch wnaeth gwblhau a dychwelyd yr holiadur a ddosbarthwyd yn ddiweddar. O dderbyn cynifer o ymatebion, bydd y canlyniadau'n werthfawr iawn i aelodau'r Bwrdd wrth iddynt bwysu a mesur pryd ac o dan ba amodau y bydd trwch y gynulleidfa'n gysurus i ddychwelyd i gyd-addoli yn y Tabernacl. Ar dudalen 2 cyflwynir crynodeb o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn eu cyfarfod yn gynharach yn yr wythnos. Os hoffai unrhyw un weld copi llawn o'r adroddiad, cysylltwch â'r Ysgrifennydd.

*Cylchlythyr wythnosol yw Dolen y Tab a sefydlwyd yn ystod y cyfnod clo i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org).*

Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rhannu erbyn nos lau yn wythnosol at: [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) / 07710 237327 / 01443 225205.

# CANFYDDIADAU'R AROLWG

Bu'r misoedd diwethaf yn rhai anodd iawn i addoldai ledled Cymru wrth iddynt bendroni dros yr hawl a roddwyd iddynt i ail-agor eu drysau wedi i Lywodraeth Cymru godi'r gwaharddiad ar gynnal oedfaon o ganol mis Gorffennaf ymlaen.

Dewisodd ambell un ail-agor o ddechrau Medi ac eraill yn ddiweddarach, ac mae rhai, megis Bethlehem Gwaelod y Garth, yn parhau i gyd-addoli'n wythnosol yn y capel. Penderfynodd eraill, megis y Tabernacl, Porth-cawl, dynnu'n ôl o'u bwriad gwreiddiol i ail-agor ar Sul cyntaf mis Hydref yn sgil y cynnydd lleol yn y sawl oedd wedi eu taro gan y feirws. Er na welwyd unrhyw ystadegau, mae'n ymddangos mai llai na hanner addoldai Cymru sydd wedi ail-agor hyd yn hyn.

Yn ddoeth iawn, dewis Bwrdd Cyfarwyddwyr Capel y Tabernacl yn eu cyfarfod ddechrau Medi oedd gohirio dod i benderfyniad ar y mater am y tro i'w galluogi i holi barn yr aelodau, cynnal asesiad risg o'r adeiladau, a dechrau cynllunio ar gyfer ail-agor yn ddiogel maes o law. Ar sail trafodaethau'r Bwrdd, lluniwyd holiadur byr yn gwahodd yr aelodau i ddweud eu dweud. Isod fe geir crynodeb byr o brif ganfyddiadau'r arolwg.

## Ail-agor ai peidio?

Mewn ateb i gwestiwn cyntaf yr holiadur, anfonwyd neges glir iawn i'r Bwrdd nad yw mwyafrif yr aelodau yn barod eto i fynychu oedfaon. Wedi rhoi'r aelodau oedd yn ansicr eu barn ar y mater ar y naill ochr, gwelwyd fod **73%** yn anfodlon eu mynychu o gymharu â **27%** oedd o blaid. Yn y sylwadau ychwanegol ar ddiwedd yr holiadur, amlygir y rhesymau pam bod yn agos at **75%** o'r aelodau yn erbyn ail-agor: sef (1) y pwyslais ar ddiogelwch a (2) y diffyg cyfle i gymdeithasu wrth fynychu oedfa dan yr amodau presennol.

Nid oes gofod yma i gynnwys yr holl sylwadau a dderbyniwyd, ond dyma ddetholiad sy'n crisialu teimladau nifer dda o'r ymatebwyr:

*'Y brif amod yw fod pawb yn saff . . . brechlyn fydd yr unig ateb tra bod yr haint gyda ni. Mae'r risg yn rhy uchel i ni ar hyn o bryd.'*

*' . . . teimlaf nad yw'n saff dan unrhyw amodau i griw cymharol fawr . . . ymgynnull yn yr un lle. Nid mater o ymateb i reolau neu ganllawiau llywodraeth yw hyn, ond mater o gymryd*

*cyfrifoldeb unigol dros leihau'r tebygolrwydd o ledaenu'r feirws a chadw fy hun ac eraill yn saff.'*

*' . . . yn ystod ein magwraeth, "mynd i'r cwrdd" oedd yr ymadrodd am fynd i'r capel, felly byddai mynd yn ôl heb fedru cymdeithasu yn chwithig.'*

*'Gweld eisiau cymdeithasu, ond mae'n bosib cynnal yr egwyddorion heb fynychu'r adeilad.'*

Yr amodau hynny roedd y ganran uchaf am eu gweld wedi eu llacio cyn teimlo'n gysurus i fynychu oedfaon oedd: dim angen gwisgo mwgwd (67%) a dim angen bwcio sedd ymlaen llaw (64%), ond roedd caniatáu canu cynulleidfaol a chyd-lefaru (54%), a lleihau'r ymbellhau 2 fetr (54%), yn dynn ar eu sodlau.

O ran y rhai oedd yn awyddus i ddychwelyd i'r Tabernacl, dyma'r sylwadau a dderbyniwyd:

*' . . . rydyn ni'n awyddus iawn i ddychwelyd i'r capel.'*

*'Byddwn yn hapus gyda chyfuniad o oedfaon rhithiol ac oedfaon yn y capel, yn dibynnu ar drai a llanw COVID-19.'*

*'Yn ogystal ag oedfa fyw, byddai trosglwyddo oedfa dros gyfrwng fel Zoom hefyd yn ddelfrydol.'*

## Gwerthfawrogi'r Oedfaon Rhithiol

Roedd yr atebion i gwestiwn 4 yn glod aruthrol i'r rhai fu mor ddiwyd yn paratoi a chymryd rhan yn yr oedfaon rhithiol dros y 6 mis diwethaf, oherwydd pan holwyd pa mor hapus fydden nhw i barhau'r gyda'r oedfaon rhithiol pe na byddem yn dychwelyd i addoli yn y capel, gwelwyd fod **70%** o'r ymatebwyr yn hapus iawn, a **26%** yn hapus, tra mai **4%** yn unig fyddai'n anhapus.

Dyma flas ar y llu o sylwadau a dderbyniwyd ar y ddarpariaeth rithiol:

*'Mae'r gwasanaethau rhithiol wedi bod yn effeithiol a bendithiol. Efallai bod yna wersi ar gyfer y dyfodol.'*

*' . . . rydyn ni'n ddiolchgar iawn am yr ymdrechion mawr a chlodwiw i'n cadw ynghyd yn rhithiol.'*

Mae'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn cloi gyda'r sylw cadarnhaol hwn gan un o'n haelodau:

*' . . . yn y cyfamser, hyderaf y byddwn yn gallu parhau yn ôl ein hegwyddorion Cristnogol a gwneud ein gorau o ddydd i ddydd.'*

**Bydd newyddion am gasgliadau'r Bwrdd ar ail-agor i'w gweld yn rhifyn yr wythnos nesaf.**